



## **Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru**

**Dydd Llun 15 Tachwedd 2021**

10.30 am

Cyfarfod Rhithwir

### **Yn bresennol:-**

Y Cyngorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion (Cadeirydd) (**Y Cyngorydd EAG**)

Y Cyngorydd Rosemarie Harris, Arweinydd Cyngor Sir Powys (Is-gadeirydd) (**Y Cyngorydd RH**)

Adam Evans, Llywodraeth Cymru (**AE**)

Aggie Caesar-Homden, Cyngor Sir Powys (**ACH**)

Andrew Cornish, Coleg Sir Gâr (**AC**)

Angharad Massow, Cyngor Sir Ceredigion (**AC**)

Ann Elias, Cyngor Sir Ceredigion (**AE**)

Ann Watkin, Llywodraeth Cymru (**AW**)

Arwyn Davies, Cyngor Sir Ceredigion (**AD**)

Arwyn Watkins OBE, Hyfforddiant Cambrian (**ArW**)

Carwyn Jones-Evans, Cyngor Sir Ceredigion (**CJE**)

Cathy Martin, Swyddfa Rheoli Portffolio (**CMn**)

Ceri Stephens, Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru (**CS**)

Claire Miles, Cyngor Sir Ceredigion (**CMs**)

Y Cyngorydd Dafydd Edwards, Cyngor Sir Ceredigion (**Y Cyngorydd DE**)

Y Cyngorydd Iain McIntosh, Cyngor Sir Powys (**Y Cyngorydd IM**)

Y Cyngorydd Myfanwy Alexander, Cyngor Sir Powys (**Y Cyngorydd MA**)

Y Cyngorydd Dafydd Edwards, Cyngor Sir Ceredigion (**Y Cyngorydd RE**)

Dr. Rhodri Llwyd Morgan, Prifysgol Aberystwyth (**RLIM**)

Eifion Evans, Cyngor Sir Ceredigion (**EE**)

Gareth Jones, Cyngor Sir Powys (**GJ**)

Gary Mitchell, PAVO (**GM**)

Glenn Bowen, Canolfan Cydweithredol Cymru (**GIB**)

Gwilym Jones, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (**GJ**)

Hywel Davies, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (**HD**)

Lowri Gwilym, CLILC (**LG**)

Marie Evans, Cyngor Sir Ceredigion (**ME**)

Mark Dacey, Grŵp Colegau NPTC (**MD**)

Nigel Brinn, Cyngor Sir Powys (**NB**)

Peter Howells, NFU (**PH**)

Peter James, Llywodraeth Cymru (**PJ**)

Peter Morris, Cyngor Sir Powys (**PM**)

Rebecca Rees, Llywodraeth Cymru (**RR**)

Rhian Hayward, ArloesiAber (**RH**)

Rowland Rees-Evans, Cyngor Sir Ceredigion (**RRE**)

Sarah Groves-Philips, Cyngor Sir Ceredigion (**SGP**)

Steve Hughson, RWAS (**SH**)

Tom Yeo, Cyngor Sir Powys (**TY**)

Vanessa Naughton, Llywodraeth Cymru (**VN**)

Darparwyd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfarfod hwn gan Sian Jones o Cyfaith.

<b>1.</b>	<b>Ymddiheuriadau am absenoldeb</b> Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y canlynol:- Diane Reynolds, Cyngor Sir Powys Dr Caroline Turner, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Powys Julie Lewis, Cyngor Sir Powys Peter James - Llywodraeth Cymru Nick Venti – PAVO
<b>2.</b>	<b>Cofnodion</b> Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 16 Medi 2021 yn gofnod cywir.
<b>3.</b>	<b>Bargen Twf Canolbarth Cymru - Diweddariad ar Gynnydd</b>  Cyflwynodd Carwyn Jones-Evans ddiweddariad ar Fargen Twf Canolbarth Cymru. Nododd fod yr Achos Busnes Portffolio Strategol a'r dogfennau ategol wedi'u cyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru ar 1 Hydref 2021 ar ôl cael eu cymeradwyo gan Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru ar 21 Medi 2021. Roedd Cabinet Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion wedi cymeradwyo'r Achos Busnes Portffolio Strategol yn unfrydol yn eu cyfarfodydd ar 5 Hydref 2021. Mae'r Achos Busnes Portffolio Strategol a'r dogfennau ategol yn cael eu hadolygu gan Swyddog Cyfrifyddu ar hyn o bryd, sy'n rhan o broses sicrwydd y Llywodraeth. Bydd hyn yn arwain at adroddiad yn nodi cyfres o argymhellion ac amserlenni y byddai angen i'r Swyddfa Rheoli Portffolio ymateb iddynt. Y gobaith oedd y byddai'r Fargen yn cael ei llofnodi cyn diwedd 2021.  Ar hyn o bryd, mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn ymgysylltu â'r rhaglenni a'r prosiectau ar y rhestr fer i gael rhagor o eglurder ar amserlenni a gofynion datblygu (mapio adnoddau/capasiti, llywodraethu/rheoli, costau datblygu, amserlenni ac ati.). Bydd hyn yn bwysig wrth bwysio a mesur sefyllfa bresennol y rhaglenni a'r prosiectau, yn enwedig wrth nodi risgiau o safbwynt y gallu i ddatblygu'r achosion busnes a'r cymorth sydd ei angen ar y noddwyr. Bydd ymatebion yn cael eu defnyddio i ddiweddarau cofrestru risg a darparu dealltwriaeth gliriach o amserlenni datblygu ar gyfer y Portffolio cyfan. Pwysleisiwyd y bydd prosiectau eraill yn cael eu croesawu.  Dywedodd CJE fod grŵp cynghori newydd yn y sector preifat yn cael ei sefydlu a bod datganiad i'r wasg yn gofyn am enwebiadau ar fin cael ei gyhoeddi. Gofynnodd Steve Hughson am y Grŵp Strategaeth Economaidd, a chadarnhawyd bod modd i aelodau o'r ESG wneud cais i fod yn aelod ar yr amod nad oes ganddynt fuddiant.

	<p>Dywedodd y Cynghorydd RH fod Powys wedi derbyn swm o £22 miliwn o Gronfa Codi'r Gwastad, a bod £16 miliwn ohono yn cael ei wario ar brosiect i adfer Camlas Maldwyn.</p> <p>Dywedodd y Cynghorydd EAP fod Ceredigion wedi derbyn £10.8 miliwn ar gyfer prosiectau yn harbwr Aberystwyth, y promenâd a'r Hen Goleg. Yn ogystal, roedd 10 prosiect wedi derbyn cyllid gan y Gronfa Adnewyddu Cymunedol.</p>
<p><b>4.</b></p>	<p><b>Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol – Diweddariad ar Gynnydd</b></p> <p>Cyflwynodd Aggie Caesar-Homden ddiweddariad ar waith y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. Dywedodd fod tynnu ymgeisydd y Swyddog Ymgysylltu â'r Cyflogwr wedi rhoi pwysau ar y tîm ond bod swyddog wedi'i secondio bellach.</p> <p>Nododd y Cynghorydd EAP fod yna brinder staff gofal, a dywedodd fod angen cyrsiau hyfforddi addas ar gyfer pobl ifanc. Pwysleisiodd y Cynghorydd RH fod angen datblygu dealltwriaeth dda o'r bylchau sgiliau y mae busnesau eisiau eu llenwi. Gofynnodd y Cynghorydd EAP a yw cyflogwyr yn cael eu cynrychioli ar y Bwrdd, a dywedwyd wrth y cynghorydd fod yna gynrychiolaeth o'r fath ond nad oes cynrychiolaeth o'r sector bwyd-amaeth. Mae ACH yn awyddus i ddenu rhywun i gynrychioli'r sector hwn ar y bwrdd, a gofynnodd i bartneriaid gysylltu â hi os ydynt yn gwybod am unrhyw un addas. Awgrymodd y Cynghorydd RE fod yr Athro Wyn Jones, gynt o Goleg Harper Evans, yn ymgeisydd posibl.</p> <p>Ystyriodd Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru benodiadau i Fwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol</p> <p><b>Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd Sir Myfanwy Alexander a'r Cynghorydd Sir Rhodri Evans i Fwrdd y Bartneriaeth.</b></p>
<p><b>5.</b></p>	<p><b>Diweddariadau Busnes</b></p> <p><b>5.1 Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf Adfywio wedi'i Dargedu</b></p> <p>Cyflwynodd Gareth Jones adroddiad ar y rhaglen Trawsnewid Trefi. Mae 11 o brosiectau wedi'u cymeradwyo, ac mae cyfanswm yr ymrwymiad grant yn werth tua £1 miliwn. Yn ogystal, mae cynllun Cam 2 Neuadd y Farchnad, Aberteifi wedi'i gymeradwyo ar yr amod bod cyllid ar gael yn y flwyddyn ariannol nesaf. Rhagwelwyd y byddai'r rhan fwyaf o'r cyllid grant ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn cael ei neilltuo yn y panel grant nesaf sydd wedi'i drefnu ar gyfer mis Tachwedd/Rhagfyr.</p> <p>Cyflwynodd GJ adroddiad ar brosiectau adfywio strategol gan gynnwys agor canolfan fusnes Canolfan Creuddyn Barcud yn Llanbedr Pont Steffan ar 4 Tachwedd, Prosiect Seilwaith Gwyrdd y Drenwydd, Palas Automobile, Llandrindod a Glan yr Afon, Y Drenwydd.</p> <p>Nododd fod grant cyllid refeniw gwerth £185,000 wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru i gefnogi mentrau ategol yng nghanol trefi'r Canolbarth yn ystod 2021-22. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu a chyflwyno atebion a hyfforddiant digidol i helpu i gynyddu nifer yr</p>

	<p>ymwelwyr, cefnogi busnesau a phrofiad ymwelwyr ac ychwanegu gwerth at fuddsoddiad sydd eisoes yn bodoli yng nghanol trefi. Hefyd, yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo swm gwerth £68,000 o gyllid referniw ar gyfer pob awdurdod lleol i gefnogi prosiectau yn 2021-22.</p> <p><b>5.2 <u>Adroddiad y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol</u></b>  Cyflwynodd Claire Miles y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol. Mae trafodaethau wedi parhau gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â buddsoddiad rhanbarthol yn y dyfodol, ac mae'r arweinwyr wedi mynychu cyfarfod arall o'r Fforwm Strategol ar Fuddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar 7 Hydref. Y gobaith yw y bydd rhagor o fanylion a gwybodaeth yn cael eu rhannu gan Lywodraethau Cymru a Llywodraeth y DU erbyn diwedd 2021, ar ôl y gyllideb ar 27 Hydref. Rhagwelir y bydd papur gwyn yn ymwneud â Chronfa Ffyniant Gyffredin arfaethedig y DU ar gael ym mis Tachwedd.</p> <p>Mae Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn arwain is-grŵp Cyfathrebu GMW. Mae pob tîm rhanbarthol yn cyfarfod yn fisol i sicrhau bod gweithgarwch cyfathrebu integredig a phrosesau newydd wedi'u sefydlu er mwyn sicrhau bod llif o weithgarwch cyfathrebu rhanbarthol yn datblygu er mwyn cynyddu amlygrwydd gwaith Tyfu Canolbarth Cymru.</p> <p>Yn ystod y chwarter diwethaf, mae Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru wedi canolbwyntio ar gefnogi WEFO i gynnal wythnos wedi'i chynllunio o weithgarwch i hyrwyddo cyflawniadau cyllid Cymorth Cyflogadwyedd ESF ledled Cymru. Mae'r Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol wedi cydgysylltu a darparu nifer o astudiaethau achos rhanbarthol i'w defnyddio gan WEFO yn ystod yr wythnos hyrwyddo (20-24 Medi). Mae cynlluniau'n cael eu datblygu ar gyfer gweithgarwch hyrwyddo ar-lein tebyg tua diwedd 2021, yn hytrach na chynnal digwyddiad blynyddol WEFO.</p> <p>Byddai ffigurau wedi'u diweddarau yn dangos perfformiad gweithrediadau a ariennir gan ESIF yn y Canolbarth yn cael eu dosbarthu yn dilyn y cyfarfod.</p> <p><b>5.3 <u>Gweithgor Cysylltedd a Seilwaith</u></b>  Cyflwynodd Ann Elias ddiweddariad ar faterion trafndiaeth strategol sy'n effeithio ar y rhanbarth, a gwaith y Gweithgor Cysylltedd a Seilwaith. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gais diwygiedig ar gyfer yr orsaf newydd arfaethedig yng Ngharno. Hefyd, nododd y newyddion siomedig nad yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi cynllun ffordd fynediad Llanbedr ym Meirionnydd.</p> <p>Cyflwynodd RH y ddiweddariad ar brosiect y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd. Cadarnhaodd Nigel Brinn y byddai'n hapus rhoi cyflwyniad ar y Ganolfan hon mewn cyfarfod yn y dyfodol.</p>
<p><b>6.</b></p>	<p><b>Diweddariad y Llywodraeth/Llywodraethau</b>  <b>6.1 <u>Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol Llywodraeth Cymru a materion rhanbarthol cysylltiedig</u></b></p>

Dyweddodd Ann Watkins fod Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn cael ei ddatblygu ar y cyd ledled y rhanbarth. Gobeithir cyhoeddi'r fframwaith erbyn diwedd 2021 neu ddechrau 2022. Y nod yw datblygu set gyffredin o flaenoriaethau datblygu economaidd ac egwyddorion y cytunir arnynt ar gyfer cydweithio, gan nodi anghenion unigryw'r rhanbarth. Mae'r blaenoriaethau yn cyfateb i flaenoriaethau Bargen Twf Canolbarth Cymru. Diolchwyd i Rhodri Llwyd a Gareth Jones am eu cymorth i gynnal digwyddiad rhanbarthol Canolbarth Cymru COP Cymru. Bydd copi o Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn cael ei anfon at aelodau'r bartneriaeth ar ôl iddo gael ei gyhoeddi.

Dyweddodd AW fod y Prif Weinidog wedi agor ArloesiAber yn ddiweddar ac wedi ymweld â Chanolfan y Dechnoleg Amgen cyn mynychu cynhadledd COP26 yn Glasgow. Dywedodd hefyd fod Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnal adolygiad bob tair wythnos o'r sefyllfa Covid, gan gynnwys unrhyw gymorth i fusnesau.

#### 6.2 Buddsoddiad rhanbarthol yn y dyfodol

Dyweddodd Alison Sandford o Lywodraeth Cymru nad yw Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu llawer â'r broses o wneud ceisiadau i'r Gronfa Adfywio Cymunedol. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi bod yn hapus â'r broses, felly nid yw wedi gwneud unrhyw sylwadau ar y ceisiadau, ar wahân i amlygu'r perygl o dwyll posibl. Nododd fod pob awdurdod lleol yng Nghymru ac eithrio Sir y Fflint wedi gwneud ceisiadau llwyddiannus.

Wrth i gyllid yr UE ddod i ben ym mis Medi 2022, mae Llywodraeth Cymru yn pryderu am y diffyg cyllid sydd ar gael ar gyfer cynlluniau yng Nghymru, sef £400 miliwn yn 2022, £700 miliwn yn 2023 ac £1.5 biliwn y flwyddyn ganlynol. Byddai hyn yn cael effaith enfawr ar gynlluniau yn y dyfodol, er enghraifft, byddai'r swm o £30 miliwn i gefnogi 5,300 o brentisiaethau, 1,100 ohonynt yn y Canolbarth, yn cael ei golli. Hefyd, roedd Llywodraeth Cymru yn pryderu y byddai defnydd llai effeithlon o adnoddau, gwerth gwael am arian a dyblygu cyllid. Mynegodd y Prif Weinidog ei bryderon am ddiffyg cyfranogiad Llywodraeth Cymru yn y cynllun grant lluosydd yn y Pwyllgor Cysylltiadau Rhynglywodraethol. Yn dilyn cefnogaeth gan y gwledydd datganoledig eraill, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Godi'r Gwastad, Tai a Chymunedau wedi cyfarwyddo ei swyddogion i weithio gyda'r llywodraethau datganoledig. Gobeithir y bydd modd gwella prosesau cydweithio o ganlyniad.

Nododd y Cyngorydd MA fod Cyngor Sir Powys bellach yn manteisio ar arian nad oedd ar gael yn y gorffennol gan nad oedd wedi elwa o gyllid yr UE o'r blaen.

### 7. **Diweddariadau Rhanbarthol Ehangach** 7.1 Busnes Cymru

	<p>Cyflwynodd Adam Evans o Lywodraeth Cymru ddiweddariad ar Busnes Cymru sydd wedi helpu i greu 6,000 o fusnesau newydd, hyrwyddo entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc a gweithredu fel cyfrwng i wireddu ymrwymïadau allweddol Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r hinsawdd. Mae Busnes Cymru yn dibynnu llawer ar gyllid yr UE, ac felly mae'n wynebu her o safbwynt sut mae am weithredu ar ôl mis Medi 2022. Roedd nifer o opsiynau wedi'u cyflwyno i Weinidogion, ond ni fydd natur y gwasanaeth yn y dyfodol yn hysbys tan ar ôl adolygiad gwariant Llywodraeth Cymru. Bydd AE yn cyflwyno diweddariad pan fydd mwy o wybodaeth ar gael.</p> <p><b>7.2 Adroddiad Cynnydd y Strategaeth Ynni</b></p> <p>Cyflwynodd Tom Yeo adroddiad cynnydd ar Strategaeth Ynni Canolbarth Cymru. Mae'r strategaeth wedi'i mabwysiadu gan y ddau Gabinet, ac mae'n gosod y weledigaeth ar gyfer y Canolbarth, sef <i>"Sicrhau system ynni ddi-garbon net sy'n cynnig manteision cymdeithasol ac economaidd, yn dileu tlodi tanwydd, yn cysylltu'r Canolbarth yn well â gweddill y DU, ac yn cyfrannu at ddatgarboneiddio ehangach y DU."</i></p> <p>Mae'r strategaeth yn nodi 6 Blaenoriaeth Allweddol i fynd i'r afael â materion ynni yn y rhanbarth. Mae Grŵp Cynghori wedi'i sefydlu i gefnogi cam nesaf y gwaith. Bydd y cynllun gweithredu terfynol yn cael ei lunio erbyn mis Mawrth 2022 i'w gymeradwyo'n ffurfiol gan y rhanbarth a Llywodraeth Cymru.</p> <p>Dywedodd y Cynghorydd MA na fyddai'r model yn llwyddo heb fuddsoddiad enfawr yn y seilwaith ynni presennol. Mae am weld rhwydweithiau ynni lleol yn cael eu datblygu, ac mae'n credu bod digon o arbenigedd yn lleol i ddatblygu prosiectau i gynhyrchu a defnyddio trydan heb ddefnyddio'r grid cenedlaethol. Nododd Glenn Bowen fod cynhyrchu ynni lleol yn gyfle i sicrhau perchenogaeth gymunedol a chadw buddion yn yr ardal. Cadarnhaodd TY fod y grŵp yn ystyried cynlluniau ynni ardal lleol gyda Llywodraeth Cymru.</p> <p>Gofynnodd y Cynghorydd RH am fannau gwefru cerbydau trydan. Dywedodd AE fod Cyngor Ceredigion wedi sefydlu grŵp i ystyried y mater hwn a bod Cyngor Powys wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan. Dadleuodd y Cynghorydd Dafydd Edwards mai hydrogen y gellir ei gynhyrchu a'i gludo heb ddefnyddio'r grid yw'r unig ateb hirdymor.</p> <p><b>7.3 Twristiaeth</b></p> <p>Nid oedd Julie Lewis, Rheolwr Twristiaeth Cyngor Sir Powys, yn gallu bod yn bresennol i roi diweddariad. Byddai diweddariad yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.</p>
<p><b>8.</b></p>	<p><b>CNC – Canllawiau ar Lefelau Ffosffadau</b></p> <p>Eglurodd Peter Morris, arweinydd Cynllunio Cyngor Sir Powys, effaith y canllawiau cynllunio ar lefelau ffosffad ar ddatblygiadau. Y canlyniad oedd cyfyngiad amgylcheddol ar unrhyw ddatblygiad o fewn dalgyrch afon ACA sy'n</p>

	<p>creu ffosffad ychwanegol. Un ateb posibl yw sefydlu safleoedd trin dŵr gyda thechnoleg stripio ffosffad Cynigiodd Dr Rhodri Llwyd Morgan gymorth prosiect CHERISH Aberystwyth.</p> <p>Dywedodd Sarah Groves-Phillips fod Cyngor Sir Ceredigion wedi sicrhau £500,000 gan Gynllun Treftadaeth y Loteri i ymchwilio i sut y gallai'r cyngor ddefnyddio ei ddaliadau tir i liniaru lefelau ffosffad.</p>
<b>9.</b>	<p><b>Ymateb i'r Ymgynghoriad – Cais am Dystiolaeth ar gyfer Strategaeth Seilwaith Di-wifr Llywodraeth y DU</b> Dywedodd CMs y bydd swyddogion digidol Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys yn llunio ymateb i'r ymgynghoriad. Gofynnodd i bartneriaid gyflwyno unrhyw sylwadau erbyn diwedd yr wythnos.</p>
<b>10.</b>	<p><b>Unrhyw Fater Arall</b> Dim</p>
<b>11.</b>	<p><b>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</b> Dydd Gwener 18 Chwefror 2022</p>